# Get Connected.

## Eich canllaw syml i ddechrau arni ar-lein.



# Gall y rhyngrwyd agor byd o bosibiliadau i bawb.

Gallwch elwa mewn sawl ffordd o fynd ar-lein. Er enghraifft, gallwch gysylltu â'ch ffrindiau a'ch teulu, defnyddio'r rhyngrwyd i siopa, cael gwybod mwy am eich hobïau a'ch diddordebau, arbed arian drwy dalu eich biliau ar-lein neu wylio rhaglen deledu neu wrando ar raglen radio os ydych chi wedi ei methu.

**Gallwch wneud hyn i gyd drwy ddefnyddio cyfrifiadur sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd.**

Nod y canllaw hwn yw eich cyflwyno i ffyrdd y gallwch chi fynd ar-lein. Bydd yn egluro rhywfaint o'r derminoleg yn ogystal â rhoi canllaw ymarferol i'r gwahanol wasanaethau sydd ar gael, a lle y gallwch gael cymorth i ddatblygu eich sgiliau a'ch hyder.



# Sut i ddechrau arni.

**Mae yna nifer o wahanol ffyrdd o fynd ar-lein. Gallwn eich helpu i gymryd y camau cyntaf, helpu i wella eich sgiliau neu eich atgoffa o bethau!**

## Ffrindiau a theulu

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddechrau arni yw gyda chymorth ffrindiau neu deulu. Os ydych chi'n adnabod rhywun â sgiliau cyfrifiadurol a all eich helpu, gall hyn fod yn ffordd wych o ddysgu.

Bydd yn golygu bod gennych rywun wrth law i ofyn iddynt am wahanol rannau'r cyfrifiadur a beth y maent yn ei wneud. Byddant hefyd yn gallu ateb cwestiynau a'ch tywys drwy'r pethau sylfaenol megis anfon e-bost a sut i 'syrffio' y rhyngrwyd.

## Llyfrgelloedd


Mae gan bron bob llyfrgell gyfrifiaduron ar gael i'w defnyddio, ac mae llawer ohonynt yn cynnig mynediad rhyngrwyd am ddim. Mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn cynnig cyrsiau ar-lein y gallwch gofrestru ar eu cyfer.

## Cyrsiau'r BBC

Mae'r BBC yn darparu cyrsiau i helpu i ddatblygu eich sgiliau cyfrifiadurol. Mae **Webwise** a **RAW Computing** yn fodiwlau hyfforddi y gallwch eu cwblhau ar-lein i'ch tywys drwy'r pethau sylfaenol ac yn gwella eich sgiliau a'ch hyder (manylion ar dudalen 09).

## Canolfannau ar-lein y DU

Ceir miloedd o ganolfannau ar-lein y DU yn Lloegr, ynghyd â'r sefydliadau cyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fel arfer, byddant mewn llyfrgelloedd, canolfannau addysg bellach, lleoliadau dysgu cymunedol neu ganolfannau TG lle gallwch gofrestru ar **myguide** i gael e-bost am ddim a chyrsiau am ddim, gan gynnwys Pethau sylfaenol ar-lein (manylion ar dudalen 08).



# Deg awgrym gorau Terry ar gyfer y rhyngrwyd.

Syniadau defnyddiol gan Syr Terry Wogan ar gyfer mynd ar-lein.



**1.** Allwch chi ddim ei dorri!

**2.** Os oes angen cymorth arnoch, gallwch ei gael mewn un alwad ffôn.

**3.** Gall arbed arian i chi ar filiau ac ar brynu pethau.

**4.** Mae'n ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu a chael gwybod beth sy'n digwydd.

**5.** Os methoch chi Weekend Wogan, gallwch wrando arno ar-lein a gweld fideo o'r uchafbwyntiau!

**6.** Mae'n ffordd wych o ddysgu mwy am eich hoff ddiddordebau a hobïau.

**7.** Gallwch siopa am bron unrhyw beth ar-lein, o archebu tocyn sinema i wneud eich siopa wythnosol.

**8.** Gallwch siarad â pherthnasau a ffrindiau sy'n byw mewn gwledydd eraill am ddim dros y rhyngrwyd.

**9.** Mae llawer o bobl debyg i chi yn y byd. Gofynnwch i'r Togs – mae'n ffordd wych o wneud ffrindiau newydd.

**10.** Os na lwyddwch chi'r tro cyntaf, daliwch ati – fe ddaw. Edrychwch, os galla'i wneud hyn, gallwch chithau hefyd!

# Y rhyngrwyd.

**Ceir pedair prif ffordd o ddefnyddio'r rhyngrwyd: mynd ar y we, anfon a derbyn e-bost, sgwrsio ar-lein a ffrydio.**

## Y We

Neu'r We Fyd Eang i roi ei henw llawn iddi. Mae'r rhyngrwyd yn cynnwys gwahanol dudalennau a elwir yn wefannau. Pan fyddwch yn mewngofnodi (cychwyn) ar y rhyngrwyd, gallwch edrych ar wefannau o unrhyw le yn y byd.

Gallwch chwilio am wefan naill ai drwy deipio'r cyfeiriad (er enghraifft, ar gyfer BBC Radio 2 – www.bbc.co.uk/radio2). Neu os nad ydych chi'n gwybod cyfeiriad y wefan, gallwch ddefnyddio 'peiriant chwilio' megis Google, neu Yahoo!, a chwilio drwy ddefnyddio term cyffredinol (er enghraifft, 'Garddio') i gael rhestr o wefannau.

Bydd pob gwefan yn cynnwys dolenni at dudalennau a gwefannau eraill a all fod o ddiddordeb i chi hefyd – mae yna lawer i'w archwilio!

## E-bost

Mae post electronig (e-bost) yn ffordd i un defnyddiwr rhyngrwyd anfon neges at ddefnyddiwr arall; fersiwn modern o ysgrifennu llythyr â llaw. Gall negeseuon e-bost fod yn fyr neu'n hir. Gallwch anfon y neges e-bost at un person neu at grŵp o bobl. Gallwch hefyd ychwanegu dogfennau at y negeseuon e-bost; er enghraifft, dogfen o waith, ffotograff neu hyd yn oed fideo neu ddarn o gerddoriaeth.





## Sgwrsio

Bydd pobl yn 'sgwrsio' gyda'i gilydd dros y rhyngrwyd, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Yn aml, bydd y grwpiau hyn yn cynnwys pobl sy'n rhannu'r un diddordebau a hobïau. Gallant wneud hyn drwy gyfrwng trafodaethau grŵp a elwir yn fyrddau negeseuon – er enghraifft, bydd pobl yn trafod eu hoff ryseitiau ar fwrdd negeseuon coginio, neu'n sgwrsio am ganlyniadau'r penwythnos ar fwrdd negeseuon eu tîm pêl-droed. Gall pobl hefyd gadw mewn cysylltiad â channoedd o ffrindiau drwy gyfrwng gwefannau 'rhwydweithio cymdeithasol' megis Facebook a Myspace, lle gallwch rannu'r hyn sy'n digwydd yn eich bywyd yn ogystal â rhannu ffotograffau a fideos â hwy.

## Ffrydio

Mae'r rhyngrwyd yn lle gwych i wrando ar gerddoriaeth neu wylio fideos. Bydd gorsafoedd radio'n darlledu'n fyw dros y rhyngrwyd fel y gallwch wrando ar eich cyfrifiadur. Neu, os ydych chi wedi methu eich hoff raglen deledu neu radio ar y BBC neu ddarlledwyr eraill, gallwch ei gwylio neu wrando arni eto ar y rhyngrwyd.

## Ffyrdd eraill o fynd ar y rhyngrwyd

Does dim rhaid i chi fod yn berchen cyfrifiadur a chysylltiad band eang cartref i fynd ar y rhyngrwyd y dyddiau hyn. Mae yna nifer o ffyrdd eraill o gysylltu, gan gynnwys:

- **Ffôn symudol** – gallwch fynd ar y rhyngrwyd ar nifer o ffonau.
- **Mewn llyfrgell** – mae'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd yn cynnig mynediad rhyngrwyd.
- **Seibercaffis neu gaffis rhyngrwyd** – bydd y rhain i'w gweld ar y stryd fawr yn aml. Gallwch dalu ffi i gael mynediad rhyngrwyd ar gyfrifiadur.
- **Wi-fi** – pwynt mynediad yw hwn lle gallwch gysylltu â'r rhyngrwyd heb gysylltiad â gwifren. Os oes gennych chi liniadur, mae yna nifer o leoedd megis caffis, adeiladau cyhoeddus a threnau lle gallwch gysylltu â'r rhyngrwyd.

# Sut i gael cymorth ac o ble: rhifau ffôn a dolenni defnyddiol.

## Llinell gyngor y BBC: ffoniwch 08000 150 950

Os oes angen cymorth arnoch i fynd ar-lein, bydd llinell gyngor y BBC yn eich rhoi ar y trywydd iawn. Er enghraifft, os hoffech drefnu i fynd ar gwrs cyfrifiaduron di-dâl, bydd y llinell gymorth yn gallu canfod eich llyfrgell neu ganolfan ar-lein agosaf. Ar ôl hynny, mae'n syml iawn. Byddwch yn trefnu dyddiad ac amser i fynd ar gwrs di-dâl. Gall y llinell gymorth hefyd ateb cwestiynau penodol sydd gennych a bydd yn eich cyfeirio at lle y gallwch gael unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnoch. Mae'r llinellau ar agor 8am–10pm bob dydd, ac mae pob galwad ffôn yn gyfrinachol. Mae'r galwadau'n ddi-dâl o'r rhan fwyaf o linellau tir. Bydd rhai rhwydweithiau a gweithredwyr ffonau symudol yn codi tâl am y galwadau hyn. Fel arall, os hoffech chi gysylltu ag un o ganolfannau ar-lein y DU yn uniongyrchol, gallwch ffonio **0800 77 1234***. Bydd canolfannau ar-lein y DU yn eich cyfeirio at eich canolfan agosaf, a gallant hwy eich helpu i ddechrau arni ar-lein. Gallwch gofrestru ar **myguide** i gael cyfeiriad e-bost am ddim a chyrsiau di-dâl, gan gynnwys pethau sylfaenol ar-lein sef defnyddio bysellfwrdd a llygoden, anfon e-bost, chwilio ar y we a diogelwch ar y rhyngrwyd. Os oes gennych chi rywun i'ch helpu, gallwch fynd yn syth i **www.myguide.gov.uk**

Os ydych chi'n byw yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, bydd canolfannau ar-lein y DU yn eich cyfeirio at y sefydliadau canlynol:

- **Cymru** – Gyrfa Cymru ar **0800 100 900*** o linell dir neu **02920 906 801**** os ydych chi'n ffonio ar ffôn symudol.
- **Yr Alban** – learndirect yn yr Alban ar **0808 100 9000***.
- **Gogledd Iwerddon** – ewch i'ch llyfrgell gyhoeddus neu symudol agosaf i gael cymorth.

**learndirect** – os ydych chi'n chwilio am gyrsiau a chymwysterau TG, gall learndirect eich helpu ar **0800 101 901***.

*Mae'r galwadau'n ddi-dâl o'r rhan fwyaf o linellau tir. Bydd rhai rhwydweithiau a gweithredwyr ffonau symudol yn codi tâl am y galwadau hyn.
**Mae costau daearyddol safonol yn berthnasol a gall y galwadau fod wedi'u cynnwys ym mhecyn galwadau eich darparwr. Efallai y bydd galwadau o ffonau symudol yn uwch.



Os ydych chi ar-lein yn barod a bod gennych chi ddiddordeb mewn helpu eich ffrindiau neu eich teulu i gysylltu, gall canolfannau ar-lein y DU eich helpu i rannu eich gwybodaeth ag eraill. Ewch i **www.ukonlinecentres.com/passiton** i gael gwybod mwy.

Mae gan y BBC ei wefan ei hun – **www.bbc.co.uk/medialiteracy** sy'n fan canolog i'ch helpu i ddefnyddio a deall y rhyngrwyd yn ogystal â dangos i chi sut i greu eich cyfryngau eich hun.

Os oes gennych chi ffrindiau neu deulu a all eich helpu, mae'n lle gwych i ddechrau. Gallwch wylio clipiau ffilm ar nifer o bynciau sy'n ymwneud â mynd ar-lein. Ceir dolenni hefyd at ganllawiau'r BBC i'ch helpu i ddechrau arni, er enghraifft **Webwise** (fel y nodwyd ar dudalen 03). Bydd y canllawiau hyn yn dysgu'r pethau sylfaenol i chi megis defnyddio llygoden a bysellfwrdd, a byddant yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau cyfrifiadurol a'ch hyder. Pam na wnewch chi hyn gyda ffrind neu berthynas?

Mae'r canllawiau hyn hefyd ar gael yn y cyfeiriadau gwe canlynol: **www.bbc.co.uk/webwise/broadbandguides** ac **www.bbc.co.uk/raw/computers**



# Dolenni defnyddiol ar y we.

learndirect Lloegr
**www.learndirect-skills.co.uk**

learndirect Cymru
**www.learndirect-skills.co.uk/wales-eng**

learndirect yr Alban
**www.learndirectscotland.com**

learndirect Gogledd Iwerddon
**www.learndirect-skills.co.uk/northernireland**

I gael gwybod mwy am eich hoff raglenni a chyflwynwyr Radio 2, cerddoriaeth, neu i gael gwrando eto ar sioe rydych chi wedi'i methu, gallwch fynd i wefan Radio 2 yn **www.bbc.co.uk/radio2**

I gael mwy o wybodaeth am ddefnyddio a deall llythrennedd cyfryngau, ewch i **www.bbc.co.uk/medialiteracy**





# Nodiadau.

BBC RADIO 2

**Llinell gyngor y BBC: 08000 150 950***

www.bbc.co.uk/radio2

www.bbc.co.uk/medialiteracy

*Mae galwadau'n ddi-dâl o'r rhan fwyaf o linellau tir. Bydd rhai rhwydweithiau a gweithredwyr ffonau symudol yn codi tâl am y galwadau hyn.

